GWASANAETH LLYSOEDD EI MAWRHYDI
hmcs
HER MAJESTY'S COURTS SERVICE

EX320

Dyfarniad cofrestredig - Beth mae hynny'n ei olygu?

Beth sy'n digwydd pan mae llys sirol yn rhoi gorchymyn i mi dalu swm o arian?

Os bydd llys wedi gorchymyn i chi dalu swm o arian (a elwir yn 'gofnodi dyfarniad yn eich erbyn') bydd manylion y dyfarniad fel arfer yn cael eu cofnodi ar y Gofrestr Dyfarniadau, Gorchmynion a Dirwyon (a elwir yn 'gofrestru'). Bydd y rhan fwyaf o'r cofnodion yn aros ar y Gofrestr am chwe blynedd lawn.

Mae sefydliadau fel banciau, cymdeithasau adeiladu a chwmnïau credyd yn defnyddio'r wybodaeth ar y Gofrestr pan fydd rhywun yn gwneud cais iddyn nhw am gredyd fel benthyciad neu orddrafft. Mae'r wybodaeth yn help iddyn nhw benderfynu a fedrai'r person hwnnw dalu'r credyd yn ôl neu beidio.

Sut fedra i ganfod a oes dyfarniad wedi ei gofrestru yn fy erbyn?

Os ydych yn ansicr a oes unrhyw ddyfarniad wedi ei gofrestru yn eich erbyn neu gan ba lys, gallwch archwilio'r Gofrestr.

Gallwch wneud hyn ar-lein drwy ymweld â www.registry-trust.org.uk neu drwy anfon ffurflen gais neu lythyr i'r Cofrestrydd:

Registry Trust Ltd
173/175 Cleveland Street
Llundain W1T 6QR

Neu gallwch eu ffonio ar 020 7380 0133.

Bydd rhaid i chi dalu ffi. Gwnewch eich siec neu archeb bost yn daladwy i 'Registry Trust Ltd' am y ffi gywir. Gallwch gael gwybodaeth am y ffi a chopi o ffurflen gais gan unrhyw lys neu gan Registry Trust Ltd.

Bydd Registry Trust yn anfon manylion i chi o unrhyw gofnodion sydd ganddyn nhw ar gyfer eich enw a'ch cyfeiriad. Bydd y manylion yn cynnwys:

- swm a dyddiad y dyfarniad;
- enw'r llys sirol lle cafodd y dyfarniad ei roi; a
- rhif yr hawliad.

Beth mae cofrestru'n ei olygu?

Os oes gennych ddyfarniad wedi'i gofrestru yn eich erbyn, mae'n bosib y bydd hi'n anodd i chi gael credyd. Ond gall fod rhesymau eraill hefyd. Os hoffech chi ddysgu mwy am sut mae cwmnïau credyd yn penderfynu benthyg arian, darllenwch y daflen 'Credit explained' gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF

Llinell gymorth Diogelu Data: 01625 545 745

Llinell archebu cyhoeddiadau: 08453 091 091

e-bost: mail@ico.gsi.gov.uk

gwefan: www.informationcommissioner.gov.uk

Fedra'i gael tynnu dyfarniad oddi ar y Gofrestr?

Dim ond am y rhesymau canlynol y gall eich dyfarniad gael ei dynnu oddi ar y Gofrestr:

- bod y swm wedi cael ei dalu **yn llawn o fewn mis** o ddyddiad y dyfarniad; neu
- bod y llys yn rhoi'r dyfarniad o'r **naill du**. (Golyga hyn fod y barnwr wedi tynnu'r dyfarniad yn ôl, naill ai am ei fod yn anghywir neu fel y gallwch chi amddiffyn yr hawliad.)

Os taloch y swm dyledus **fwy na mis** ar ôl dyddiad y dyfarniad, bydd y cofnod yn aros ar y Gofrestr am y chwe blynedd llawn. Ond gallwch gael 'wedi ei fodloni' wedi ei farcio arno. Bydd hynny'n dangos i unrhyw un sy'n chwilio'r Gofrestr bod y dyfarniad wedi ei dalu a'r dyddiad y taloch chi'r arian.

Nid yw marcio bod cofnod 'wedi ei fodloni' neu'i ddileu o'r gofrestr yn gwarantu y cewch chi gredyd os gofynnwch amdano.

Sut y galla i drefnu i gael dileu cofrestriad neu farcio ei fod ‘wedi ei fodloni’?

Dylech wneud cais i’r llys a oedd yn delio ddiwethaf gyda’ch achos gan ddefnyddio ffurflen N443. Yn eich cais, dylech gynnwys rhif yr hawliad, eich enw llawn, dyddiad geni, cyfeiriad, rhif ffôn ac enw’r llys y cedwir y dyfarniad neu’r gorchymyn ar hyn o bryd. Mae rhif yr hawliad yn bwysig gan na fydd y llys yn gallu canfod cofnod o’ch achos hebddo.

Gyda’ch cais dylech anfon:

- cadarnhad ysgrifenedig (oddi wrth y person yr oeddech mewn dyled iddo) bod y dyfarniad wedi ei dalu; a
- ffi am bob achos yr ydych yn dymuno ei ddileu neu ei farcio ‘wedi ei fodloni’. (Gall y llys ddweud wrthych faint yw’r ffi.)

Os byddwch yn anfon siec neu archeb bost am y ffi, dylai fod yn daladwy i ‘GLIEM’. Os ydych yn talu drwy siec, fydd y llys ddim yn gallu dileu’r dyfarniad na’i farcio ‘wedi ei fodloni’ tan bod y siec wedi ei chlirio (14 diwrnod fel rheol).

Os nad ydych wedi llwyddo i gael cadarnhad ysgrifenedig oddi wrth y sawl yr oedd arnoch arian iddo, gallwch ofyn i’r llys ddileu’r dyfarniad beth bynnag neu ei farcio ‘wedi ei fodloni’. Os nad yw cofnodion y llys yn dangos bod eich dyfarniad wedi ei dalu, bydd staff y llys yn ysgrifennu at y sawl yr oedd arnoch arian iddo.

Pan fydd y person hwnnw’n ateb y llys, neu un mis ar ôl dyddiad llythyr y llys os na dderbynnir ateb, bydd y llys yn prosesu eich cais ac yn anfon cadarnhad atoch fod y cofnod ar y Gofrestr naill ai wedi cael ei ddileu neu fod nodyn ‘wedi’i fodloni’ wedi’i gynnwys.

Bydd Registry Trust Ltd wedyn yn trosglwyddo’r wybodaeth i’r asiantaethau credyd. Ond gall gymryd rhai wythnosau i’ch cofnod credyd gael ei ddiweddaru.

Gaf i newid fy manylion ar y gofrestr?

Os bydd eich cofnodion ar y gofrestr yn anghywir neu’n anghyflawn, gallwch ofyn i’r Cofrestrydd wirio’ch cofnod gyda’r llys. Bydd y Cofrestrydd yn ysgrifennu atoch yn cadarnhau i’r cofnod gael ei wirio gyda chofnodion y llys a’i fod naill ai wedi’i newid gan y llys neu fod y llys wedi cadarnhau bod eich manylion fel ag y maent yn ymddangos ar gofnodion y llys.

Dim ond os bydd barnwr yn rhoi caniatâd y cewch newid eich manylion ar y gofrestr. Bydd staff y llys yn gallu eich cynghori ynghylch sut i wneud cais.

‘Gwella credyd’

Efallai eich bod wedi gweld hysbysebion gan gwmnïau sy’n cynnig eich helpu gyda’ch statws credyd (sy’n aml yn cael ei alw’n ‘wella credyd’). Dim ond i chi dalu ffi, mi ddywedan nhw wrthych sut i wneud cais i ofyn i ddyfarniadau sydd wedi eu cofrestru yn eich erbyn gael eu rhoi o’r naill du (eu tynnu’n ôl). Fel rheol maen nhw’n dweud y bydd hynny’n eich galluogi i ddileu’r dyfarniadau o’r Gofrestr. Mae llawer yn darparu canllawiau yn egluro sut y gallwch chi eich hun wneud cais i dynnu dyfarniadau oddi ar y gofrestr.

Cofiwch, mai dim ond y llys sy’n medru dileu cofnodion oddi ar y Gofrestr a dim ond dan amgylchiadau prin iawn. Er enghraifft, ni ellir rhoi dyfarniad o’r naill du os oedd yn anghywir ar yr adeg y cafodd ei gofnodi. Ni ellir rhoi dyfarniad o’r naill du dim ond oherwydd eich bod chi wedi’i dalu. Os byddwch chi’n dweud rhywbeth wrth y llys gan wybod bod hynny’n anghywir, efallai y cewch chi eich erlyn.

Nid yw’n anghyfreithlon helpu rhywun sydd â rhesymau dilys dros wneud cais i ddirymu neu ddileu dyfarniad. Ond mae trefniadau’r llys yn weddol syml ac fel rheol gellir delio â nhw yn hawdd ac yn rhad heb help cwmni gwella credyd.

Os ydych yn credu bod rheswm da dros roi’r dyfarniad o’r naill du, gall staff y llys roi’r ffurflenni angenrheidiol i chi a dweud wrthych beth i’w wneud yn rhad ac am ddim. Ond bydd rhaid talu ffi fechan am rhoi dyfarniad o’r naill du. Gall staff y llys ddweud wrthych faint yw’r ffi neu gallwch gael rhagor o wybodaeth yn nhaflen Ffioedd y Llys Sirol (ar gael o swyddfa unrhyw lys sirol). Mae gwybodaeth ar sut i roi dyfarniad o’r naill du ar gael hefyd yn y daflen **EX20 - ‘Talu fy nyfarniad - beth ddylwn i ei wneud?’** sydd ar gael o unrhyw lys sirol neu drwy edrych ar ein gwefan www.gwasanaeth-llysoeddem-service.gov.uk

Cofiwch, dim ond syniad cyffredinol o’r hyn sy’n debyg o ddigwydd a gewch yn y daflen hon. Ni all egluro popeth am reolau a threfniadau’r llys. Efallai y gallwch chi gael cyngor cyfreithiol yn rhad ac am ddim o ganolfan cyfraith. Efallai y gall eich Canolfan Cyngor ar Bopeth neu ganolfan cyngor i ddefnyddwyr eich helpu hefyd.

I gael gwybodaeth gyfreithiol, cymorth a chyngor yn rhad ac am ddim, cysylltwch â’r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol Uniongyrchol ar 0845 345 4 345 neu www.clsdirect.org.uk